

VAUGHAN (TEULU), Cleirwy ('Clyro'), sir Faesyfed.

Sefydlydd y gainc hon o'r Fychaniaid oedd ROGER VAUGHAN (I), trydydd mab **Thomas ap Rhosier Fychan**, Hergest - gweler teulu **Vaughan**, Hergest. Ei wraig oedd Jane ferch Dafydd ap Morgan ap Siôn ap Phylip. ROGER VAUGHAN (II) oedd eu hetifedd, a phriododd ef Margaret ferch Rhys ap Gwilym ap Llywelyn ap Meurug. Dichon mai ef oedd yr un y gwelir ei enw ar restr comisiynwyr y degymau eglwysig yn Ionawr 1535. Yr oedd iddo o leiaf ddau fab: ROGER VAUGHAN (III), yr etifedd, a THOMAS VAUGHAN, Llywes, a briododd Sibil ferch Hywel ap Thomas Goch. Y ddau frawd yma a syrthiodd i grafangau'r **esgob Rowland Lee** yn 1538. Dichon mai Thomas oedd y Thomas Vaughan, Cleirwy, a gafodd bardwn am lofruddiaeth, 14 Awst 1536. Bu'r ddau o dan groesholi gan yr esgob a Sulyard ar 18 Gorffennaf 1538, a pha beth bynnag oedd yr achos yr oedd yn ddigon difrifol i Thomas Cromwell eu galw o dan osgordd i'w wyddfod ei hun yn Llundain. Y Roger Vaughan hwn, wedi cyrraedd safle o barchusrwydd y mae'n debyg, oedd siryf Maesyfed yn 1576-7. Ei wraig ef oedd Margaret, ferch **Syr William Vaughan**, Porthaml, a briododd **Charles Vaughan**, Hergest, yn ail ŵr, a hithau yn ail wraig iddo ef. ROGER VAUGHAN (IV) oedd yr etifedd, a phriododd ef Margery ferch Richard Monington. Yr oedd ef yn ustus heddwch yn siroedd Maesyfed, Henffordd, a Brycheiniog, yn ddirprwy-raglaw Maesyfed, a bu'n aelod seneddol dros sir Faesyfed o 1572 i 1583 ac yn siryf Brycheiniog yn 1595-6. Yr oedd yn gyfeillgar â **Syr Gelly Meyrick**, a daeth o dan ddrwgdybiaeth drom pan gododd iarll Essex mewn gwrthryfel yn 1601. Yr oedd ei fab JOHN VAUGHAN yn siryf Maesyfed yn 1607-8. Priododd ef aeres Richard Baynham, Aston Ingham, sir Henffordd, a thuaig yno y trodd golygon y teulu o hynny allan.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarendieux and Norroy, two kings at arms(Llandoverly 1846), i, 258

Limbus Patrum Morganiae et Glamorganiae (1886), 238

Calendar of Patent Rolls

Letters and Papers, Foreign and Domestic, of the Reign of Henry VIII

Reports of the Historical Manuscripts Commission, Cecil MSS., xi, 43-107

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895*(Brecknock 1895), 172

D. Mathew, *The Celtic Peoples and Renaissance Europe. A study of the Celtic and Spanish influences on Elizabethan history* (1933), 352-455

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748894

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, E. D., (1953). VAUGHAN (TEULU), Cleirwy ('Clyro'), sir Faesyfed.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 27 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-VAUG-CLE-1500>

frannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddi
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government